# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 26AIN MEDI 2017 AM 5.30PM.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd W. David – Cadeirydd
Y Cynghorydd G. Oliver – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Andrews, P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, A. Farina-Childs, D. Havard, M.P. James, Mrs T. Parry, J. Roberts a R. Whiting.

Ar y cyd gyda:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Prif Swyddog Cyllid), Sarah Ellis, (Rheolwraig Cynhwysiant ac ADY), E. Sullivan (Swyddog Craffu Dros Dro), C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Y Cynghorydd P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Aelodau Cyfetholedig: Mr R. Morgan (Rhiant Lywodraethwr), Mrs P.J. Ireland (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon), M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archdiocesaidd Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr J. Bevan, D. Hardacre, Mrs B. Miles, R. Saralis and Mr M. Barry (Rhiant Lywodraethwr).

**2. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Rees, Pennaeth Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol Gynradd y Parc i Gyfarfod y Pwyllgor Craffu.

**3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar y dechrau nac yn ystod y cyfarfod.

**4. COFNODION – 11EG GORFFENNAF 2017**

PENDERFYNWYD, yn amodol iddo gael ei nodi bod Mr M. Barry (Cynrychiolydd y Rhiant Lywodraethwyr) yn bresenol yn y cyfarfod, dylid cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar yr 11eg Gorffennaf 2017 (cofnodion rhifau 1-11) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod Cabinet wedi ymddiheuro a byddai'n rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

## 7. RHAGLEN WAITH Y DYFODOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

Cyflwynodd y Swyddog Craffu Dros Dro yr adroddiad a oedd yn amlinellu Rhaglen Waith y Dyfodol y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes drafft o fis Medi 2017 hyd at fis Gorffennaf 2018.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y rhaglen waith ac i wneud unrhyw newidiadau neu i gynnwys eitemau agenda ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried ychwanegu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Raglen Waith y Dyfodol ar gyfer 7fed Tachwedd 2017 . Yn ogystal, atgoffwyd yr Aelodau y gellid gofyn am unrhyw geisiadau am adroddiadau i'w cynnwys ar Raglen Waith y Dyfodol drwy e-bost i'r Gwasanaethau Democrataidd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad yn amodol ar gynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar ychwanegu Adroddiad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, y dylid cymeradwyo'r rhaglen waith sydd ynghlwm â'r adroddiad

## 8. ADRODDIADAU'R CABINET

Ni chafodd adroddiad y Cabinet a restrir ar yr agenda ei alw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod.

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 9. CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLWG ESTYN O DAN Y FFRAMWAITH AROLYGU CYFFREDIN NEWYDD – MEDI 2016 TAN ORFFENNAF 2017.

Croesawodd y Pwyllgor Craffu Mrs Rees, Pennaeth Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol Gynradd y Parc, a roddodd gyflwyniad ar Arwain Gwella Ysgolion.

Nododd yr Aelodau, pan arolygwyd Ysgol Gynradd y Parc gan Estyn yn 2015, ei bod wedi'i chategoreiddio fel ysgol categori coch ac o ganlyniad fe'i targedwyd ar gyfer ymyrraeth ddwys gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Yn ogystal, roedd yr ysgol yn destun hysbysiad rhybuddio a phenodwyd llywodraethwyr ychwanegol i'r corff llywodraethu. Yn dilyn ail-ymweliad monitro pellach gan Estyn ym mis Gorffennaf 2016, rhoddwyd yr ysgol yn y categori sydd angen Gwella Sylweddol.

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2015-16, ymddeolodd y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth a gofynnwyd i'r Pennaeth, Mrs Rees o Ysgol Gynradd Gilfach Fargod fabwysiadu rôl Pennaeth Gweithredol o fis Medi 2016.

Nododd aelodau mai, ar yr adeg pan gymerodd Mrs Rees y rôl, Ysgol Gynradd y Parc oedd yr ysgol oedd yn cyflawni lleiaf yn y teulu ac roedd safonau wedi dirywio'n sylweddol dros gyfnod o ddwy flynedd. Nid oedd datblygiad medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn gyson dda ac roedd perfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gyffredinol wedi gostwng yn sylweddol yn 2014. Roedd nifer cymharol uchel o blant a oedd yn absennol yn barhaus ac absenoldebau anawdurdodedig a byddai rhai plant yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn barhaus. Nid oedd disgyblion yn chwarae rhan weithredol mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch eu bywyd yn yr ysgol, roedd diffygion mewn cynllunio cwricwlaidd, addysgu ac asesu. Roedd cyfranogiad y llywodraethwr yng nghyfeiriad strategol yr ysgol, hunanarfarnu a gwella'r ysgol yn gymharol danddatblygedig.

Nododd y Pwyllgor fod y Pennaeth wedi cynllunio nifer o newidiadau yn yr ysgol, a ddechreuodd gyda hunan-arfarniad gonest, Cynllun Gweithredu ar ôl Arolygu (a arolygwyd a'i gymeradwyo gan Estyn yn hydref 2016). Ehangwyd y tîm i gynnwys Dirprwy Bennaeth newydd, a secondiwyd yn wreiddiol o Gilfach Fargod, Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, staff dysgu a staff cymorth dysgu ychwanegol. Ymgymerwyd â gwaith wedyn i ddatblygu ffocws newydd ar Safonau, a ddechreuodd drwy rannu arfer gorau, y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, cynhaliwyd sylwadau a sefydlwyd cyfarfodydd myfyrio wythnosol i atgyfnerthu'r ethos ac i gefnogi lles.

Tynnodd y Pennaeth sylw at y ffaith bod gwaith arwyddocaol wedi'i wneud, ers yr arolygiad, i wella safonau addysgu a rhagoriaeth gyffredinol o fewn yr ysgol. Mae'r Llywodraethwyr yn cymryd rhan fwy amlwg, mae'r presenoldeb wedi bod yn uwch na'r targed ar gyfer 2016-17 y tymor hwn, mae Estyn i fod i ail-ymweld â'r ysgol a gobeithir y bydd y categori yn gwella i Amber.

Wrth symud ymlaen, nod yr ysgol yw parhau i ganolbwyntio ar safonau, parhau i leihau anghysondeb mewn addysgu a dysgu, datblygu rôl cymuned yr ysgol gyfan ac adeiladu ar ymgysylltu ymhellach â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Diolchodd y Pwyllgor i Mrs Rees am y cyflwyniad manwl a llongyfarchodd hi ar y gwaith helaeth a wnaed i wneud gwelliannau sylweddol.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am Broses Arolygu diwygiedig Estyn. Amlinellwyd bod yna broses arolygu gyffredin, ac yn dilyn hynny datblygir Cynllun Gweithredu ar ôl Arolygu ac mae'r cynnydd yn ei erbyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r broses newydd wedi gweithredu arsylwadau llai ffurfiol o ystafelloedd dosbarth ac mae'n galluogi arolygwyr i dreulio amser gyda dysgwyr, trafod gwersi a'u dysgu, gan alluogi casglu adborth mwy ystyrlon.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am forâl staff yr ysgol. Nodwyd bod morâl staff wedi gwella, mae'r cyfarfodydd myfyrio wythnosol wedi cynorthwyo i godi morâl, gan fod didwylledd a gonestrwydd yn cael eu hannog ac anogir staff i godi unrhyw faterion neu bryderon er mwyn mynd i'r afael â hwy.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Pennaeth am yr adroddiad a chroesawodd Mr Andrew Williams o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyflwyno Crynodeb o Ganlyniadau Arolygu Estyn o dan y Fframwaith Arolygu Cyffredin Newydd - Medi 2016 tan Orffennaf 2017.

Hysbysodd yr adroddiad yr Aelodau o'r dyfarniadau a wnaed o Ysgolion Caerffili gan dimau Arolygu Estyn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016-2017 (lle cyhoeddwyd) a rhoddodd grynodeb o ddyfarniadau arolygu ysgolion Caerffili ers cyflwyno'r Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd ym mis Medi 2010.

Arolygwyd yr ysgolion a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn ystod Tymor yr Hydref, y Gwanwyn a'r Haf 2016-17. Arolygwyd pob un ohonynt o dan y trefniadau newydd ar gyfer arolygiadau, a ddaeth i rym ar 1af Medi 2010

Nododd yr adroddiad yr ysgolion a'r dyddiadau y cynhaliwyd yr arolygiadau, ynghyd â'r canlyniadau lle roeddent ar gael.

Nododd y Pwyllgor bod 14 o ysgolion Caerffili wedi cael eu harolygu yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Barnwyd bod 1 ysgol yn ardderchog, barnwyd bod 11 ysgol yn dda, roedd 1 yn ddigonol, ac ystyriwyd bod 1 ysgol yn anfoddhaol (Ysgol Gyfun Bedwas) ac, o ganlyniad, mae'n ddarostyngedig i Fonitro gan Estyn.

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am yr arolygiadau blaenorol a gynhaliwyd rhwng Medi 2014 a Gorffennaf 2016. Nodwyd y cafodd 12 o ysgolion Caerffili eu harolygu. O'r ysgolion hyn, cafodd 8 eu gosod mewn categori dilynol, ond mae 6 bellach wedi'u dileu a 2 wedi aros yn y categori dilynol o'r flwyddyn flaenorol.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r gwelliannau, ond gofynasant am fwy o fanylion ar gynlluniau i wella ac i fwy o ysgolion gael eu categoreiddio'n rhagorol. Esboniodd swyddogion bod nifer o ardaloedd difreintiedig ar draws y fwrdeistref, sy'n effeithio ar gyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae gwaith ar y gweill i nodi meysydd o ragoriaeth mewn ysgolion ac i rannu arfer gorau i gynorthwyo gwelliant.

Trafododd y Pwyllgor Arolygiad Estyn ac Ysgol Gyfun Bedwas a gofynnodd am sicrwydd na fyddai hyn yn cael ei ailadrodd. Sicrhawyd yr aelodau bod yr adroddiad arolygu hwn yn alwad i ddeffro ac mae wedi creu cyfle i edrych ar yr ysgol, ei phrosesau, ei rheolwyr, y staff a'r Llywodraethwyr a sicrhau bod safonau'n gwella.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a nododd ei gynnwys.

## 10. CYRHAEDDIAD DISGYBLION YN Y CYFNOD SYLFAEN, CYFNOD ALLWEDDOL 2 A CHYFNOD ALLWEDDOL 3 2017

Hysbysodd yr adroddiad yr Aelodau am gyrhaeddiad disgyblion mewn asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

Mae pob ysgol yn destun adrodd a monitro safonau trwyadl bob blwyddyn, gyda'r prif ffocws yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 ar Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth a'r canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri pwnc craidd - y dangosydd pynciau craidd.

Nodwyd bod ysgolion yn adrodd yn y Cyfnod Sylfaen ar berfformiad plant 7 oed mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg a Chymraeg), datblygiad mathemategol, a datblygiad personol, cymdeithasol a lles, a datblygiad diwylliannol. Mae'r dangosydd cyfnod sylfaen yn mesur y canran sy'n cyflawni'r canlyniad disgwyliedig ym mhob un o'r tri maes dysgu.

Er bod asesiad o lythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn gymharol debyg i berfformiad mewn Saesneg / Cymraeg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, nid yw Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles, a Datblygiad Diwylliannol yn cael eu hasesu yn yr un modd â gwyddoniaeth. Yn lle hynny, mae'n darparu asesiad cyfannol o les disgyblion ac i ba raddau y gallent uniaethu'n briodol â'r rhai o'u cwmpas. Mae hefyd yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant ac amrywiaeth ac o'r amgylchedd y maent yn byw ynddo. O'r herwydd, mae'n fesur pwysig o'u 'parodrwydd' cyffredinol ar gyfer dysgu. Mae cyflawniad mewn Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg a Chymraeg), Datblygiad Mathemategol, a Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles, a Datblygiad Diwylliannol yn cael eu mesur mewn perthynas ag un o'r chwe disgrifydd 'canlyniad'.

Nododd y Pwyllgor y disgwylir i'r disgybl 'cyfartalog' gyflawni canlyniad 5 erbyn diwedd y cyfnod sylfaen (cwricwlwm cenedlaethol lefel 2 gynt), gyda disgyblion mwy galluog yn cyflawni canlyniad 6 (lefel 3 gynt). Ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3, disgwylir i'r disgybl 'cyfartalog' gyrraedd lefel 4 ac uwch a lefel 5 ac uwch yn y drefn honno a disgwylir i ddisgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5 a 6 yn y drefn honno.

Yn ogystal â pherfformiad ar y lefel ddisgwyliedig, mae'n bwysig hefyd i ddadansoddi perfformiad ar Lefel Ddisgwyliedig +1 ar bob cam.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a chafwyd trafodaeth. Wedi ystyried yr adroddiad, trafododd yr Aelodau'r tueddiadau a'r dangosyddion yn fanwl a chodwyd ymholiad ynghylch y blwch rhwng y rhywiau a sut y gellid lleihau hyn. Esboniodd y swyddogion fod y blwch rhwng y rhywiau'n fater cyffredin i bob Awdurdod Lleol. Mae gwaith ar y gweill i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau er mwyn canfod y cymhelliant cywir i fechgyn, mewn ymgais i leihau'r bwlch.

Trafododd y Pwyllgor berfformiad ysgolion a nodwyd bod nifer o enghreifftiau lle mae Ysgolion Cynradd wedi gweld gwelliannau enfawr yn dilyn Adroddiadau Estyn, o fewn amser byr. Fodd bynnag, ymddengys bod Ysgolion uwchradd yn cymryd mwy o amser, oherwydd maint, diwylliant a chymhlethdod ffactorau. Trafodwyd Adroddiad Arolygu Estyn o Ysgol Uwchradd Bedwas, a osodwyd mewn mesurau arbennig a mynegodd yr Aelodau eu siom. Fodd bynnag, derbyniwyd adroddiad Estyn ac mae gwaith sylweddol ar y gweill gyda'r ysgol a'r Corff Llywodraethol er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i ddod â'r ysgol allan o fesurau arbennig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

## 11. DATBLYGU GWASANAETH SYNHWYROL A CHYFATHREBU CYFUNOL (SENCOM)

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau ynghylch y cynigion i drosglwyddo Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent, a gynhelir ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) ar ran y pum Awdurdod Lleol (ALlau) yng Nghonsortiwm De Ddwyrain Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Ar hyn o bryd mae Torfaen yn rheoli'r Gwasanaeth Nam ar y Clyw a'r Timau Ymyrraeth Cyfathrebu ar ran y rhanbarth. Roedd yr adroddiad yn gofyn am farnau'r Cabinet, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr holl ganlyniadau ymgynghori a wnaed rhwng Tachwedd 2016 a Mehefin 2017 mewn perthynas â'r cynnig. Nodwyd bod yr adborth yn gyffredinol yn gadarnhaol gyda staff y gwasanaeth yn nodi buddion megis mwy o hyblygrwydd, defnydd mwy effeithlon o adnoddau a chyllidebau cyfunol. Fodd bynnag, roedd rhai o'r bygythiadau a nodwyd yn cynnwys y potensial i golli systemau TG, cysoni swydd ddisgrifiadau a thelerau ac amodau. Ar ôl ymgynghori â chydweithwyr yn y trydydd sector, roedd yr adborth yn bositif a theimlwyd bod yr amserlenni'n ddigonol i sicrhau pontio a pharhad gwasanaeth esmwyth, gan amharu ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth cyn lleied â phosib.

Ystyriodd y Pwyllgor Craffu'r adroddiad yn fanwl a chodasant ymholiadau mewn perthynas â'r effaith ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth a sut byddai pryderon a godir gan staff yn cael sylw. Esboniodd swyddogion fod 3 thîm ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau ar draws y bwrdeistrefi. Yn aml gellid dyblygu gwasanaethau, gan nad yw angen unigol o reidrwydd yn gyfyngedig i un gwasanaeth. O ganlyniad, byddai'r gwasanaeth cyfunol yn lleihau dyblygu darpariaeth gwasanaeth ac yn darparu gwasanaeth symlach i'r defnyddwyr, gan hefyd leihau'r angen am adnoddau a gweithio'n fwy effeithiol. Wrth gyfeirio at bryderon staff, eglurodd y swyddogion fod ymgynghoriadau wedi'u cynnal ac mae gwaith ar y gweill i ystyried yr amrywiaeth o systemau sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws y meysydd gwasanaeth. Rhoddir ystyriaeth i symleiddio'r hyn i'r systemau a throsglwyddiadau data mwyaf effeithiol.

Yn ogystal, mae angen ystyried Telerau ac Amodau'r contractau gan fod y rhain yn wahanol ar draws Awdurdodau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion:

(i) nododd y Pwyllgor Craffu'r adroddiad; a

(ii) dylid cefnogi trosglwyddo'r gwasanaeth nam ar y golwg i CBS Torfaen ac argymell i'r Cabinet y dylid cefnogi hyn.

**12. CYNIGION BAND B YSGOLION YR 21AIN GANRIF**

Roedd yr adroddiad yn anelu at ymgynghori â'r Aelodau ar flaenoriaethau a gynhwyswyd yn Rhaglen Amlinellol Strategol drafft Band B Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif a oedd yn ofynnol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) erbyn 31/07/17 a gofynnodd am gymeradwyaeth i sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol, gyda'r cylch gorchwyl o adolygu a thrafod y cynigion yn fanwl.

Nododd y Pwyllgor nad oedd hi'n bosib cael cymeradwyaeth Aelodau cyn cyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol oherwydd yr amserlenni tynn a bennwyd gan LlC. Fodd bynnag, cymeradwywyd y cynigion gan Fwrdd Strategaeth yr Ysgol a thrafodwyd yn fanwl gyda'r Aelod Cabinet. Gwnaethpwyd yn glir i LlC nad yw'r cyflwyniad wedi derbyn cymeradwyaeth yr Aelodau eto, a gallai fod yn destun newid.

Mae Band B o Raglen Ysgolion y 21$^{ain}$ Ganrif i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2019 a pharhau tan fis Mawrth 2024. Mae hyn yn cynnwys £1.1 biliwn o gyllid cyfalaf a refeniw.

Nodau'r rhaglen fuddsoddi, a amlinellir gan LlC, yw:

- Lleihau'r nifer o ysgolion a cholegau mewn cyflwr gwael
- Lleihau'r capasiti dros ben a sicrhau bod gennym yr ysgolion a'r colegau o'r maint cywir yn y lleoliad cywir sydd:
  - yn cynnig digon o le i ddarparu Addysg Gymraeg a Saesneg;
  - Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd Addysgol - gan annog defnydd ehangach o adeiladau ysgol ar gyfer cyfleusterau a defnydd cymunedol.

Yn ogystal, mae cynigion y Cyngor wedi nodi ysgolion gan ddefnyddio blaenoriaethau lleol ychwanegol fel yr amlinellir yn fanwl yn yr adroddiad.

Roedd y Rhaglen Amlinellol Strategol drafft a gyflwynwyd i LlC yn cynnwys cais o £78 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau a hyd at £32 miliwn o gyllid refeniw.

Yn ogystal, cynigiodd yr adroddiad y dylid sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol i friffio Aelodau ar flaenoriaethau'r Cyngor a nodwyd yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gyflwynwyd i LlC ac ymgynghori ag Aelodau am yr ysgolion unigol a nodwyd yn ystod y broses hon. Byddai canfyddiadau'r Gweithgor Trawsbleidiol yn cael eu hadrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr. Yn ogystal, byddai safbwyntiau Aelodau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, cyn ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Trafododd yr Aelodau y rhaglen a cheisiasant wybodaeth ar y broses ac os oedd ysgolion yn ymwybodol o'r rhaglenni. Esboniodd swyddogion bod nifer o ysgolion wedi'u clustnodi ar gyfer y rhaglen. Byddai'n ofynnol i bob achos gwblhau achos busnes, a fyddai'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai proses ymgynghori'n digwydd. Ar hyn o bryd, nid yw ysgolion wedi cael eu hysbysu. Fodd bynnag, cynhelir ymgynghoriadau yn amodol ar gymeradwyaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion:

(i) I nodi cynnwys yr adroddiad a chytunir i sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol i drafod y cynigion yn fanylach ar lefel ysgol unigol;

(ii) Adroddir canfyddiadau'r Gweithgor Trawsbleidiol yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Addysg am Oes ym mis Ionawr cyn i'r cynigion gael eu cyflwyno i'r Cabinet

Terfynwyd y cyfarfod am 7.53pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2017 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

___________________________

CADEIRYDD